Beth i'w wneud os yw eich plentyn yn dangos symptomau coronafeirws (COVID-19)

Un neu fwy o symptomau COVID-19:

- Peswch newydd, parhaus
- Tymheredd uchel
- Colli synnwyr arferol o flasu neu arogli, neu newid yn hyn o beth

Rhestr weithredu

1. Os yw eich plentyn neu aelod o'ch cartref yn datblygu unrhyw un o'r symptomau hyn, dylai'r cartref cyfan hunanynysu ar unwaith. Mae hyn yn golygu aros gartref, hyd yn oed os yw'r symptomau'n ysgafn. Er mwyn diogelu pobl eraill, rhaid i chi beidio â mynychu ysgol, meithrinfa, lleoliadau gofal plant eraill, gweithle, na mynd i leoedd fel meddygfa, fferyllfa neu ysbyty.

2. Os yw eich plentyn yn datblygu symptomau yn yr ysgol, bydd yr ysgol yn cysylltu â chi. Rhaid i chi gasglu unrhyw chwiorydd neu frodyr o'u hysgol, a chasglu'r plentyn â symptomau wedi hynny.

3. Os yw eich plentyn yn anhwylus, ond nid ydych chi'n siŵr os oes angen prawf arnynt, cysylltwch â https://111.wales.nhs.uk/default.aspx?locale=cy neu ffoniwch 111 am gyngor clinigol.

4. Gwnewch gais i gael prawf coronafeirws yn https://llyw.cymru/gwneud-cais-i-gael-prawf-coronafeirws-covid-19 neu ffoniwch 119. Dylech chi drefnu prawf ar gyfer yr unigolyn sydd â'r symptomau. Nid oes angen profi pawb sy'n byw yn y tŷ os nad oes ganddynt symptomau.

5. Rhaid i unrhyw un â symptomau hunanynysu am 10 diwrnod o'r diwrnod y dechreuodd eu symptomau. Gallant ddychwelyd i'r ysgol ar ôl 10 diwrnod os ydyn nhw'n ddigon iach i wneud hynny. Os nad oes gan eich plentyn unrhyw symptomau COVID-19, ond maen nhw'n:

   Teimlo'n sâl â thymheredd sy'n is na 38C
   Chwydu neu â dolur rhydd
   Â diffyg archwaeth
   Â brech
   Â blinder / poenau
   Neu ag unrhyw salwch cyffredinol neu'n teimlo'n anhwylus

   Dylech chi fonitro eich plentyn yn fanwl. Os yw hynny'n briodol, cadwch nhw i ffwrdd o'r ysgol, ond rhowch wybod i'r ysgol yn y modd arferol.

6. Rhaid i unrhyw un yn y tŷ sydd heb symptomau hunanynysu am 14 diwrnod o'r diwrnod y dechreuodd y person cyntaf yn y cartref gael symptomau.

7. Os yw eich plentyn yn cael prawf negyddol, gall hunanynysu ddod i ben i bawb, gall plant ddychwelyd i'r ysgol a gall rhieni ddychwelyd i'r gwaith os ydyn nhw'n ddigon iach i wneud hynny a chyn belled nad oes neb arall yn y tŷ wedi datblygu symptomau. Pan fydd eich plentyn yn dychwelyd i'r ysgol, darparwch brawf o'u canlyniad.

8. Os yw eich plentyn yn cael prawf positif, bydd y Tîm Profi, Olrhain, Diogelu yn cysylltu â chi ac yn rhoi cyngor pellach i chi.

9. Os yw eich plentyn yn ymddangos yn sâl iawn, yn gwaethygu neu os ydych chi'n meddwl bod rhywbeth difrifol o'i le, ffoniwch 999. Peidiwch ag ymweld â'ch meddyg teulu, fferyllfa neu ysbyty, ac eithrio mewn argyfwng.

10. Yn achos cysylltiadau â phobl nad ydynt yn byw yn yr un tŷ, os yw person wedi bod mewn cysylltiad ag unigolyn sydd â symptomau, dylent barhau yn ôl eu harfer hyd nes bod yr unigolyn hwnnw'n derbyn canlyniad eu prawf. Os yw'r canlyniad yn bositif, bydd y Tîm Profi, Olrhain, Diogelu yn cysylltu â'r bobl a nodwyd fel cysylltiadau ac yn rhoi cyngor yn unol â hynny.

Lluniwyd y ddogfen hon yn unol â chanllawiau gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 11.09.2020